Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

01/04

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Prif Weinidog Cymru
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

27/01/2016

Annwyl Brif Weinidog,

**Cyllideb Comisiynydd y Gymraeg 2016-17**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21/01/2016 sy'n rhoi cadarnhad mai £3,051,000 sydd wedi ei ddyrannu ar gyfer y sefydliad yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17. Roedd yr Amcangyfrif a gyflwynais i Weinidogion Cymru ym mis Hydref 2015 yn nodi yr angen am gyllideb sefydliadol o £3,744,000. Mae'r arian fydd ar gael £543,000 yn llai na'r gwariant o £3,744,000 a nodwyd yn Amcangyfrif 2016-17. Rydych wedi cadarnhau y gallwn ddisgwyl derbyn taliad un tro o £150,000 cyn diwedd mis Ionawr 2016 i liniaru effaith y toriad arfaethedig i gyllideb y flwyddyn nesaf.

Yn sgil derbyn eich llythyr rwyf wedi bod yn ceisio canfod arbedion ar gyfer y flwyddyn nesaf ac ystyried y rhagolygon ansicr ar gyfer y blynyddoedd dilynol. Ochr yn ochr â hynny rwyf hefyd wedi edrych yn ôl dros batrwm cyllido sy'n tystio lleihad cronnus i sefydliad Comisiynydd y Gymraeg ers tair blynedd. O ganlyniad ystyriaf fod yn gyfrifoldeb arnaf ysgrifennu atoch ymhellach ac yn ffurfiol i leisio fy nghonsyrn difrifol.

Yn gyntaf hoffwn godi pryder am y lleihad cronnus i cyllideb Comisiynydd y Gymraeg ers ei sefydlu. Y flwyddyn 2016 – 17 fydd y pumed blwyddyn ers i Gomisiynydd y Gymraeg ddod i fodolaeth ar 1 Ebrill 2012. Dyrannwyd cyllideb o £4,100,000 ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf. Derbyniwyd toriad o £410,000 (10%) yn 2014-15 a thoriad pellach o £300,000 (8%) yng nghyllideb 2015-16. Esboniwyd bod y toriad hwn yn rhan o doriadau ehangach yng nghyllideb yr adran addysg a sgiliau a bod yn ofynnol i'r sefydliad dderbyn toriad. Mae hyn wedi bod yn doriad o 23% mewn termau real ers i'r Comisiynydd gael ei

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

sefydlu, mae chwyddiant yn effeithio'r Comisiynydd yn yr un modd â sefydliadau eraill. Pe byddai Comisiynydd y Gymraeg yn derbyn toriad pellach o 10% i'r gyllideb ar gyfer 2016-17, bydd lefel ariannu wedi gostwng i tua £3,050,000 i'w gymharu â £4,100,000 ar gyfer 2013-14. Bydd hyn yn doriad o dros 25% mewn termau ariannol. Wrth ystyried effaith chwyddiant (RPI) ar gostau'r sefydliad mae'r effaith yn doriad o 32% mewn termau real i'w gymharu â'r flwyddyn sefydlwyd y Comisiynydd. Mae'r patrwm torri yn fwy eithafol na'r hyn a welir yn achos sefydliadau sy'n gwneud gwaith tebyg i Gomisiynydd y Gymraeg a'r toriad a gafodd y Llywodraeth ei hun i'w chyllideb derfynol dros gyfnod tebyg. e.e.

| | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015-2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 14,885,270,000 | 15,321,778,000 | 15,343,967,000 (14,041,391,000)[1] | 14,392,712,000 |
| | - | 2.9% | 0.1% | 2.5%[2] |
| Comisiynydd y Gymraeg | 4,100,000 | 3,690,000 | 3,390.000 | 3,051,000 |
| | | -10.0% | -8.1% | -10% |

Yn eich tystiolaeth i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar 13 Ionawr eleni pan holwyd chi gan John Griffiths AC am doriadau i'm cyllideb fe wnaethoch gyfiawnhau'r penderfyniad ar sail cysondeb gyda thoriadau i Gomisiynwyr eraill:

"It's consistent, of course, with the financial settlement that has been provided for other commissioners as well"

Mae'r rhesymeg dros dorri ar sail cymariaethau cyllidol sefydliadol yn unig yn sigledig gan nad oes yna cymhariaeth yn ein swyddogaethau a gan *nad* yw y Comisiynwyr eraill yn reoleiddwyr sy'n gosod a gorfodi dyletswyddau statudol. Mae cyfrifoldebau statudol ar y Comisiynydd trwy Mesur y Gymraeg yn sylweddol wahanol.

[1] Y gwaelodlin yng nghyllideb drafft Llywodraeth Cymru 2016 – 17
[2] Cynnydd yn erbyn gwaelodlin cyllideb drafft Llywodraeth Cymru 2016 - 2017

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

| | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015-2016 | 2016 - 2017 |
|---|---|---|---|---|
| Comisiynydd Pobl Hŷn | 1,730,000 | 1,750,000 | 1,715,000 | 1,545,000 |
| | | +1% | -2% | -10% |
| Comisiynydd Plant Cymru | 1,715,000 | 1,715,000 | ? | ? |
| | | 0.1% | ? | ? |
| Comisiynydd y Gymraeg | 4,100,000 | 3,690,000 | 3,390,000 | 3,051,000 |
| | | -10.0% | -8.1% | -10% |

Nid yw patrwm cyllido Comisiynydd y Gymraeg wedi bod yn dilyn trywydd y gofynion deddfwriaethol esblygol. Buasai cyllido ar sail anghenion y gwaith i'w weld yn drywydd cwbl resymegol. Er enghraifft, tua 3% yw'r toriad sydd wedi ei roi i Estyn, sefydliad sydd i'w weld yn derbyn cyllid ar sail gofynion y gwaith arfaethedig, yn y gyllideb ddrafft.

Mae lefelau cyllido'r dyfodol a chyfnod heriol y 2 flynedd nesaf yn benodol yn bryder gwirioneddol. Eglurais mewn papur a gyflwynwyd i chi ar 10 Rhagfyr 2015 mai rhwng Ebrill 2016 a diwedd Mawrth 2018 fydd y cyfnod mwyaf heriol y bydd Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn ei wynebu wrth sefydlu'r drefn safonau. Nodais yn fy mhapur bod disgwyl i mi gynnal ymchwiliadau safonau i ragor o'r sectorau a enwir yn Atodlen 8 y Mesur a'i fod yn waith cyfreithiol manwl nad oes modd ei symleiddio wrth ddilyn gofynion y Mesur y Gymraeg 2011. Hoffwn hefyd eich atgoffa o'r cynnig a basiwyd yn unfrydol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar Hydref 20, 2015 yn:

"nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo yn ei strategaeth iaith 'Iaith fyw: iaith byw' i wneud 'safonau a fydd yn galluogi'r Comisiynydd i osod dyletswyddau ar gwmnïau'r sector preifat sy'n rhan o gwmpas Mesur y Gymraeg, gan gynnwys cwmnïau telathrebu, gweithredwyr bysiau a threnau, a chwmnïau cyfleustodau'."

Fy nghonsyrn mawr dros y cyfnod nesaf yw nad oes modd torri corneli wrth weinyddu prosesau statudol yn unol a Mesur y Gymraeg 2011. Mae risg o gamweinyddu'n uchel os nad oes digon o adnoddau ar gael i weithredu'r drefn yn iawn o fewn gofynion statudol y Mesur. Rhaid cael yr adnoddau priodol i sicrhau gweithrediad priodol o'r gofynion statudol clir sydd yn disgyn arnaf fel Comisiynydd y Gymraeg. Roedd y gofynion cyllidol a nodais yn fy Amcangyfrif, ac yn y papur pellach a rennais gyda chi yn Rhagfyr 2015 yn

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

rhai realistig a resymol ar sail gweithredu gofynion y Mesur.

Fel y gwyddoch hefyd, mae fy swyddogaethau yn y Mesur yn eang ac mae llu o ofynion a dyletswyddau eraill arnaf fel Comisiynydd, tu hwnt i osod safonau'r Gymraeg bydd gofynion cynyddol arnaf i'w gorfodi. Y tu hwnt i'r drefn Safonau mae gofynion statudol eraill: eleni er enghraifft, byddaf yn cyhoeddi fy Adroddiad 5 Mlynedd cyntaf ar sefyllfa'r Gymraeg ac fe fyddaf yn parhau i weithredu swyddogaethau ymchwil, rhoi cyngor a gwneud argymhellion ar wahanol faterion yn unol â fy swyddogaethau o dan adran 4 y Mesur. Mae gwneud y gwaith pwysig yma hefyd yn gynyddol anodd gyda thoriadau cyson i'm cyllideb.

Er mwyn caniatáu i mi weithredu yn gyfreithiol briodol fel Comisiynydd y Gymraeg ac i sicrhau llwyddiant gweithredol i Fesur y Gymraeg 2011 rwy'n gofyn i chi fel Prif Weinidog, gyda chyfrifoldeb arbennig dros y Gymraeg a chyfrifoldeb cyffredinol am weithrediad deddfwriaeth, i ail ystyried cwrs cyllidol Comisiynydd y Gymraeg. Nid yw'r taliad lliniarol o £150,000 yn ddigon i bontio'r diffyg yn fy nghyllideb dros gyfnod estynedig a gofynnaf i chi ystyried o ddifrif peidio gwneud toriad pellach o 10% i gyllideb Comisiynydd y Gymraeg a thrwy hynny osgoi sgil effeithiau negyddol ar weithrediad Mesur y Gymraeg 2011. Pe na byddech yn gweld eich bod yn medru neu yn barod i ddal yn ôl ar y toriad bydd cyllideb o £3,051,000 yn gadael y sefydliad mewn sefyllfa fregus ac fe fyddwn yn gofyn i chi fan lleiaf godi'r swm lliniarol yn agosach at y £543,000 a nodwyd fel swm angenrheidiol yn fy Amcangyfrif.

Yr eiddoch yn ddifrifol,

**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg